"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1885. [RHIF 50.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Am yr Iawn	217
Cristionogaeth a Dyn	225
Y Post am Flwyddyn	228
Y Gwahaniaeth rhwng Toriaeth a Rhyddfrydiaeth	229
Nodynau Gwasgarog	232
O lan y Dw'r	236
Hanes Dyn	237
Manion a Hanesion	238
Marwgofion	239

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] HYDREF, 1885. [Rhif 50.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

AM YR IAWN.

Mae yr Iawn, neu haeddiant Crist, yn un o'r athrawiaethau pwysicaf yn y dduwinyddiaeth boblogaidd. Yn nglyn â hi, ac yn rhan o honi, mae athrawiaeth yr Ymgnawdoliad. Ni fuasai raid i'r ail berson yn y Drindod wisgo cnawd ond am y rheswm nad oedd modd achub pechadur heb ei ddyoddefiadau a'i haeddiant Ef. Mae athrawiaeth yr Iawn o dyfiant graddol, ac wedi myned trwy gyfnewidiadau mawrion o bryd i bryd, a digon tebyg y cyfnewidir hi etto yn y dyfodol, nes myned o honi yn ddim, oblegyd nid yw yn rhesymol nac yn Ysgrythyrol.

Yr ydys yn addef fod y geiriau "iawn," "pridwerth," "prynedigaeth," "pwrcas," a'r cyffelyb, i'w cael yn y Beibl. Ceir y gair "iawn" mewn tri o fanau yn y Testament Newydd (Rhuf. iii. 25, 1 Ioan ii. 2, a iv. 10), ond ni cheir yno athrawiaeth yr Iawn yn ol fel y mae yn cael ei gosod allan yn holwyddoregau a chredoau yr eglwysi uniawngred.

Credwyf mai dyddorol i ddarllenwyr Yr Ymofynydd fyddai i mi olrhain yr athrawiaeth yn ei hamryfal raddau o ddadblygiad trwy ganrifoedd ei bodolaeth hyd yn bresenol. Mae ei hamddiffynwyr, o amser i amser, er mwyn ei gwneuthur yn fwy rhesymol a chredadwy, wedi ei throi a'i thrin, ei naddu a'i llyfnhau, nes y mae rhai o honynt eisoes wedi ei thaflu dros y bwrdd yn gyfangwbl, a digon tebyg y bydd i ereill, yn awr ac yn y man, wneuthur yr un peth; ac nid rhyfedd hyny, oblegyd nid oes yn yr athrawiaeth ddim a saif yn ngwyneb ymchwiliad manwl a diduedd. Nid oes ynddi elfenau bywyd.

Gydag un eithriad, os eithriad hefyd, nid oes son am yr athrawiaeth dan sylw yn ysgrifeniadau neb o'r athrawon Cristionogol yn uniongyrchol ar ol yr oes apostolaidd. Dywed Clemens Romanus rywbeth

yn y cyfeiriad yma, ond a chydmaru yr hyn a ddywed â'i ysgrifeniadau ereill, ymddengys ei fod yn mhell o gredu yr athrawiaeth o Iawn dirprwyol Crist. Siarada am effeithioldeb ffydd braidd yn yr un geiriau â'r Apostol Paul, ac am waed Crist wedi ei dywallt er rhoddi edifeirwch ac iachawdwriaeth i'r holl fyd. Mae yn annog dynion i ufuddhau i ewyllys Duw, i syrthio ar eu hwynebau ger ei fron, a thaflu eu hunain ar ei drugaredd Ef. Ni ddywed y gwr hwn fod cyfiawnder ar ffordd trugaredd, a bod y gyfraith yn gofyn Iawn Anfeidrol cyn cael y pechadur yn rhydd. Yr oedd Ignatius yn ddysgybl i St. Ioan, a dywed i "Grist gael ei groeshoelio yn wirioneddol drosom ni yn y cnawd, o dan Pontius Pilat, fel, trwy ei adgyfodiad, y gallai osod i fyny, drwy yr holl oesau, arwydd i'w ganlynwyr sanctaidd a ffyddlawn." Yr oedd Polycarp yn ddysgybl i Ignatius, a dywed yntau i "Grist ddyoddef y cwbl er ein mwyn ni, fel y byddem byw trwyddo Ef." Mae genym dystiolaeth ysgrifenwyr hanes boreuol yr Eglwys Gristionogol (eu hunain yn *orthodox)* na wyddai yr hen dadau eglwysig boreuaf fawr, os dim, am Iawn Crist, a'u bod yn gosod pwys mawr ar weithredoedd da. Dywed un o'r diwygwyr Lutheraidd mwyaf gwresog am yr ysgrifenwyr Cristionogol oeddent yn byw yn fuan ar ol amser yr apostolion, eu bod yn hollol anwybodus o lygredd naturiol dyn, o ddirgeledigaethau yr Efengyl, ac o Haeddiant Crist. Mae Credo yr Apostolion, fel ei gelwir, yr hon a gafodd ei dechreuad tua chanol neu ddiwedd yr ail ganrif, yn hollol ddystaw yn nghylch yr Iawn. Yn nghyfnod boreuaf ei bodolaeth, tua dechreu y drydedd ganrif, ni olygai coleddwyr yr athrawiaeth dan sylw fod gwaed Iesu Grist yn ateb gofynion cyfiawnder Dwyfol, ond mai *tâl ydoedd i'r diafol.* Dyna beth oedd barn y dysgedig Origen (O.C. 230). Ni ddaeth i'w feddwl ef fod dyoddefiadau Crist yn un math o Iawn i Dduw. Fel y canlyn y mae yn ymresymu: "Dywed Paul (1 Cor. vi. 20), 'Canys er gwerth y prynwyd chwi.' Gan hyny, prynwyd dynion oddiwrth ryw un i'r hwn yr oeddynt yn gaethion, ac am y pris y gwelodd y perchenog yn dda i ofyn, fel y byddai iddo roddi gollyngdod i'r rhai oeddynt yn cael eu dal mewn caethiwed ganddo. Ond i'r *diafol* yr oedd dynion yn gaethion, o herwydd yr oeddent wedi cael eu traddodi iddo am eu pechodau. Am hyny, gofynodd y *diafol* waed Iesu Grist fel gwerth eu prynedigaeth." Am ganrifoedd wedi amser Origen, barn y Tadau Lladinaidd oedd, mai tâl i'r *diafol* am eneidiau dynion oedd gwaed Iesu Grist—mai eiddo'r diafol oeddent cyn hyny. Augustine, yr hwn a aned yn y flwyddyn 354, a haerai nad oedd marwolaeth Crist yn dâl dyledus i Dduw, ond mai gweithred o gyfiawnder â'r diafol oedd—mai'r diafol a'i lladdodd, fel pris gollyngdod pechaduriaid. Rhywbeth yn debyg i hynyna oedd athrawiaeth yr Iawn am oesau lawer. Nid oedd Duw yn hawlio dim; y diafol oedd yn hawlio'r cyfan.

Nid oedd y dyb hon am Aberth Iawnol y Gwaredwr, yn enwedig yn y Dwyrain, yn gorwedd yn esmwyth ar feddyliau duwinyddion; felly, yr oedd yn rhaid cael rhyw olwg neu *theory* wahanol. Ymgymmerodd un o'r enw Gregory Nazianzen â'r gorchwyl o egluro y pwnc hwn, ond bu yn aflwyddiannus, a gadawodd ef yn llawn mor dywyll ag o'r blaen.

Golygai Gregory, os mai y diafol gafodd y pris neu yr iawn, fod hyny yn gywilydd o'r mwyaf; ac nid yn unig hyny, ond os cafodd ef yr Iawn, ac mai Duw ei hunan oedd yr Iawn, golygai mai teg fuasai i'r diafol, am gymmaint pris, ollwng pechaduriaid oll yn rhyddion o'i grafangau, yr hyn nis gwnaeth. Gofynai, "Ai Duw gafodd y pris?" Ond ni allai ateb y cwestiwn yn gadarnhaol, oblegyd nid mewn caethiwed i Dduw yr oedd pechaduriaid; a pha fodd, meddyliai, y gallai y Tad ymhyfrydu yn ngwaed ei unig anedig Fab, pan na wnai dderbyn Isaac yn aberth ar law Abraham.

Y cyntaf i droi ei wyneb oddiwrth y diafol, a dweyd yn bendant mai i'r Tad, neu i *gyfiawnder* y Tad, yr oedd Iawn Crist yn ddyledus, oedd Gregory Fawr, Pab Rhufain (600). Mewn llawer o dywyllwch, a chyda llawer o annghyssondeb, dywedai hwn fod rhywfath o iawn yn angenrheidiol er prynedigaeth dyn, ond y gallasai Crist, pe yn dewis hyny, gadw dyn heb *farw* drosto. Ei eiriau ydynt, "Nis gallasai rhwd pechod gael ei lânhau heb dân poenedigaeth; Crist, gan hyny, a ddaeth heb fai, fel y gallai ymostwng i boenedigaeth wirfoddol, a dyoddef y gosp ddyledus am ein pechodau ni." Ond dywed Gregory hefyd y "gallasai Crist ein cynnorthwyo ni heb ddyoddef ei hunan, oblegyd yr oedd yn ngallu yr Hwn a'n creodd ein gwaredu yn annibynol ar ei farwolaeth ei hun. Ond hon oedd y drefn a ddewisodd, fel, trwy hon y dangosai gariad mwy tuag atom ni." Yr un oedd barn Thomas Aquinas, y Doctor Efengylaidd, yn y drydedd ganrif ar ddeg. Ei eiriau ydynt, "O herwydd pechod yr oedd dyn yn ddyledwr i Dduw fel Barnwr, ac i'r diafol fel poenydiwr. A chyda golwg ar Dduw, yr oedd cyfiawnder yn gofyn prynedigaeth dyn, ond gyda golwg ar y diafol, nid oedd; felly, talodd Crist ei waed i Dduw, ac nid i'r diafol." Dywed y Doctor yn mhellach, "nad oedd yn naturiol annalluadwy i Dduw gael ei gymmodi â dyn heb farwolaeth Crist, ond mai hon oedd y ffordd fwyaf gyfleus." Nid allan o le, yn y fan hon, yw dweyd mai Thomas Aquinas oedd y cyntaf erioed i son am Dduw yn cael ei gymmodi â dyn—y Creawdwr yn plygu i'w greadur; ond mae y syniad yn gableddus, ac nid oes cyfeiliornad o fwy yn myd y cyfeiliornadau.

Dim cyn amser y Diwygiad gan Luther ac ereill, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, y daeth athrawiaeth yr Iawn i'w hoed ac i'w chyflawn faintioli—i rywbeth yn debyg i gyfundrefn reolaidd ar gynseiliau addefedig, ac wedi cael ei rhesymu allan i'r pendraw. Yn ol yr Eglwys Babaidd, y mae dyn, trwy bechod, ar y naill law, yn ddyledwr i Dduw, ac yn ngafael cosp ysprydol a thragwyddol, ond oddiwrth yr hon y mae yn cael ei waredu ar edifeirwch trwy ras Duw, sylfaenedig ar haeddedigaethau Iesu Grist; ac ar y llaw arall, y mae yn ddarostyngedig i gosp *dymhorol*, yn cael ei gweinyddu gan yr Eglwys, yn ol yr awdurdod y mae yn honi sydd yn ei meddiant. Trefn gyfrwys dros ben ydoedd hon, oblegyd, os yr Eglwys sydd yn cospi, gan yr Eglwys hefyd y mae yr hawl i faddeu; ac felly, iddi hi y mae pob dirwy, neu dâl, neu Iawn, yn ddyledus. Nid oedd achos mwyach i'w choffrau fod yn weigion. Fel y canlyn:—Gan fod pechodau dynion gan mwyaf yn afrifed, a'u bywydau ar y ddaear yn rhy fyr i dalu y ddyled neu ddwyn

y gosp, cafwyd allan fod y fath le â Phurdan, lle mae eneidiau y rhai sydd wedi eu hordeinio i fyned i'r nefoedd yn gorphen y gweddill o'r poenedigaeth—bydded fwy, bydded lai; ond rhaid myned gam yn mhellach, a daethpwyd i wybod y ffordd i fyrhau amser y gosp yn y purdan yn y modd canlynol. Un o'r enw St. Thomas a haerai fod y saint wedi gwneuthur mwy o ddaioni nag oedd yn angenrheidiol er eu cadwedigaeth eu hunain—wedi *haeddu* mwy nag oedd yn ofynol oddiwrthynt, ac felly, fod yr hyn oedd dros ben (gweithredoedd y *supererogasiun*) wedi cael ei ystorio er gwasanaeth yr Eglwys, a thrwy yr Eglwys er ymwared o boenau y purdan. Yn fuan, gwelodd yr Eglwys y fantais o werthu tocynau maddeueb y Pab (*indulgences*); ac yr oedd y prynwyr yn cael allan o'r banc neu yr ystorfa ysprydol hon y mesur hwnw o haeddiant y saint a dybient oedd yn angenrheidiol. Y goreu ei bwrs a brynai helaethaf. Yr oedd yn rhaid i'r tlawd dolio a dyoddef. Dywedai un John Tetzel nad oedd ffoedigaethau Crist yn ddigon i gadw pechadur, a bod y diffyg i gael gyflenwi gan haeddiant y saint allan o'r ystorfa, ar ba un yr oedd y Pab yn arolygwr, a'i fod ef, trwy gyhoeddi a gwerthu maddeuebau y Pab, wedi achub mwy o ddynion o uffern nag a wnaeth St. Pedr droi at Gristionogaeth wrth bregethu. Oddiwrth hyn, gwelir fod haeddiant Crist wedi bod mewn perygl o gael ei daflu i'r cysgod gan haeddiant dynion—y saint. Hyn oedd y prif ysgelerder a gynhyrfodd Martin Luther a'i gyd-ddiwygwyr, ac a fu yn achos y Diwygiad Protestanaidd. Haeddedigaethau Crist oedd y cwbl yn ngolwg Luther, ac nid oedd un teilyngdod na haeddiant yn perthyn i weithredoedd goreu dyn. Yn ol ei farn ef, cafodd Crist ei gospi am bechodau dynion, a chyfiawnder Duw ei foddloni trwy hyny. Mae ufudd-dod a chyfiawnder Crist mwyach, trwy ffydd, yn cael eu priodoli i'r pechadur, ac felly y mae yn cael ei gyfiawnhau yn ngolwg Duw.

Er gweled i ba eithafion y mae llawer duwinydd yn cael ei yru gan ei gyfundrefn hoff ei hun, wele yn canlyn gyfieithad o ryw ddarnau o esponiad Martin Luther ar lythyr Paul at y Galatiaid :—

" O ran ei hun, y mae Crist yn ddiniwed, ac o ganlyniad, ni ddylasai fod wedi cael ei hongian ar bren; ond yn gymmaint ag y dylai pob lleidr a drwgweithredwr, yn ol cyfraith Moses, gael ei grogi, felly hefyd, yn ol y gyfraith, dylasai Crist gael ei grogi, o herwydd ei fod yn sefyll yn mherson pechadur a lleidr, ac nid yn unig yn mherson un o'r cyfryw, ond yr oedd yn personoli holl bechaduriaid a lladron y byd. . . . . Diau fod yr holl broffwydi yn rhagweled hyn trwy yr yspryd, sef y byddai Crist i fod *(become)* y troseddwr, y mwrddwr, y godinebwr, y lleidr, y *rebel*, a'r cablwr gwaethaf a fu erioed yn y byd, neu a ddichon fod. O herwydd wedi cael ei wneuthur yn aberth dros bechodau yr holl fyd, nid yw mwyach yn berson diniwed a dibechod—nid yw mwyach yn Fab Duw, wedi ei eni o'r Fair Forwyn—ond pechadur, yr hwn sy'n cymmeryd arno ei hun ac yn dwyn pechodau Paul, yr hwn oedd yn gablwr, yn orthrymwr, ac yn erlidiwr; pechodau Pedr, yr hwn a wadodd Grist; Dafydd, yr hwn oedd odinebwr a mwrddwr; yn fyr, yr hwn sy'n cymmeryd arno ac yn dwyn holl bech-

odau y byd yn ei gorff, nid ei fod ef ei hun wedi eu cyflawnu, ond ei fod wedi eu derbyn wedi eu cyflawnu genym ni, a'u gosod ar ei gorff, fel y gallai roddi Iawn drostynt â'i waed ei hun. Gan hyny, mae cyfraith Moses yn ei ofyn Ef, er yn ei berson ei hun yn ddiniwed, o herwydd iddi ei gael yn mhlith pechaduriaid a throseddwyr ; yn yr un modd ag y mae'r swyddog yn ystyried yn lleidr y sawl y mae yn gael yn mhlith lladron a throseddwyr ereill, ac yn ei gospi fel y cyfryw, er na wnaeth erioed ddim yn haeddu marwolaeth. Yn awr, Crist, yr hwn, nid yn unig a gafwyd yn mhlith lladron, ond yr hwn o'i wir fodd a thrwy ewyllys y Tad, a fynai hefyd fod yn gyfaill pechaduriaid, a gymmerodd arno gnawd a gwaed y rhai oeddent bechaduriaid a lladron. Y gyfraith, gan hyny, wedi ei gael yn mhlith lladron, a'i condemniodd, ac a'i lladdodd fel lleidr. . . . . Ond dywed rhyw un mai gwrthun ac enllibus yw galw Mab Duw yn bechadur dan felldith. Meddaf wrth y cyfryw, os wyt yn gwadu fod Crist yn bechadur, ac yn felldithiedig, rhaid i ti hefyd wadu ei groeshoeliad a'i farwolaeth. Oblegyd nid llai gwrthun yw dywedyd i Fab Duw gael ei groeshoelio, ac iddo ddyoddef poenau pechod a marwolaeth, na dywedyd ei fod yn bechadur a than felldith. Ond os nid gwrthun yw credu a chyfaddef i Grist gael ei groeshoelio rhwng dau leidr, yna, nid gwrthun chwaith yw dywedyd ei fod dan felldith, a'i alw y mwyaf o bechaduriaid."

Dyna fel y dywed Luther, a minau a ddywedaf mai ychydig llai o gabledd yw galw Crist y mwyaf o bechaduriaid, na galw Duw yn bennaeth y cythreuliaid.

Wedi dechreu myned i gyfeiliorni, ac wrth geisio troi cyfeiliornad yn wirionedd, mae dynion yn aml wedi rhedeg i eithafoedd gwrthuni. Nis gallasai Luther fyned yn mhellach yn y cyfeiriad hwn yn ei ffyddlondeb i athrawiaeth yr Iawn, ac yr wyf yn tybio nas gallasai neb arall chwaith. Cyrhaeddodd ef y terfyn pellaf, yr *Ultima Thule*. Gwir fod llawer o hagrwch yr athrawiaeth wedi cael ei guddio oddiar amser Luther hyd yn awr. Mae chwithigrwydd ymadroddedig ei ddyddiau ef wedi cael ei leddfu a'i gaboli i gryn raddau ; mae'r athrawiaeth yn cael ei gwisgo yn well, ond ni waeth beth, hi ydyw hi wedi'r cyfan, mae'r Iawn o hyd yn angenrheidiol i rwystro cyfiawnder i ddamnio pechodau, ac i agor y ffordd i'w drugaredd i drugarhau wrtho. Dywed un esgob, gan feddwl ei fod yn rhoi llam i dir mwy rhesymol, er fod Crist wedi rhoi Iawn digonol am bechodau pawb, etto, nad ydyw'r Iawn yn effeithiol ond am y pechodau y mae dynion yn edifarhau am danynt ac yn eu gadael. Gallwn i gasglu oddiwrth hyn mai telerau iachawdwriaeth dyn wedi'r cyfan yw, *edifeirwch*, *diwygiad*, a *bywyd sanctaidd*. Mae'r esgob yn cydsynio, ond dywed y dylid cofio mai dyoddefiadau Crist fu yn foddion i gyffroi Duw i roddi telerau mor deg. Dywed esgob dysgedig ac enwog arall, rhy ddoeth i fabwysiadu y dull surlym gynt o osod yr athrawiaeth gerbron y cyhoedd, ei fod yn credu yn effeithioldeb ac Iawn Crist i sicrhau maddeuant i ddyn, ond nad yw yr Ysgrythyr yn dangos yn eglur pa sut y mae hyn yn bod, ac felly, y mae yn gadael y pwnc yn mhlith y pethau anesponiadwy.

Hyd yma yr ydwyf wedi olrhain hanes yr athrawiaeth yn nghwrs ei dadblygiad, ac yr ydys yn cael fod yr Iawn yn aros yn barhaus mewn rhyw ddull neu gilydd, yn bwysig, ac yn anhebgorol er iachawdwriaeth dyn. Os nid i'r diafol mae'n ddyledus, mae'n ddyledus i Dduw, os nid i Dduw, mae'n ddyledus i gyfiawnder Duw; ac os nad yw'r ymadroddeg hyn yn gweddu, mae'r Iawn wedi sicrhau i ddyn oddiwrth ammodau maddeuant, a derbyniad i gymmod, sef ar edifeirwch, a dwyn ffrwythau addas i edifeirwch.

Paham mae Iawn Crist mewn unrhyw ystyr yn ofynol? Un rheswm yw, meddir, fod Duw yn anfeidrol, ac o ganlyniad, fod pob trosedd yn ei erbyn yn anfeidrol, ac er maddeuant fod Iawn anfeidrol yn ofynol. Ond nis gall dyn meidrol roi Iawn anfeidrol; am hyny, Iesu Grist, yr hwn oedd yn Dduw ac yn ddyn a gymmerodd ddeddfle pechadur, ac a roddodd yr Iawn i Dduw trwy ei ddyoddefiadau ar y groes. Hawdd gweled nad oes yn hyn ond y twyll-ymresymiad mwyaf; oblegyd os yw anufudd-dod dyn yn anfeidrol, mae ei ufudd-dod hefyd felly; ac os am ei ddrwg ar y naill law, y mae'n haeddu cosp anfeidrol; am ei dda ar y llaw arall, y mae'n teilyngu gwobr anfeidrol! Yn ol yr ymresymiad hwn, nid oes graddau mewn drwg a da, ond y mae y lleiaf fel y mwyaf yn anfeidrol. Mae lladrata coflaid o friwydd yn gymmaint o bechod a lladd dyn! Etto, gallwn, yn gysson â'r rhesymeg uchod, feddwl fod yn rhaid i Grist ddyoddef fel Duw cyn y byddai i'w ddyoddefiadau fod yn Iawn anfeidrol. Ond a fu'r Duwdod—a fu'r Anfarwol drengu ar Galfaria! O'r tu arall, os mai fel dyn y bu Crist farw, dynol a meidrol, ac nid anfeidrol oedd Iawn y groes.

Rheswm arall yw fod cyfiawnder Duw mor fawr, goruchel, ac ofnadwy, fel y byddai gollwng pechadur yn rhydd yn unig ar ei edifeirwch yn ormod dianrhydedd i'r gyfraith sydd wedi cael ei throseddu; fod cyfiawnder dwyfol yn gofyn ei hawl yn llawn; a chan nad yw dyoddefiadau pechodau yn ddigon i foddloni ei ofynion, rhaid i rywun arall gymmeryd ei ddeddfle, ac yfed cwpan dialedd hyd ei waelodion. Rhyw olwg arswydus ar gyfiawnder Duw yw hon. Mewn dyn, nid cyfiawnder fyddai peth cyffelyb i hyn, ond ymddygiad a fyddai yn cael ei gashau gan bawb ac yn briodol felly. Mae dyn wedi cael ei droseddu yn edrych i mewn yn bwyllog i'r amgylchiadau cydfynedol; mae'n chwenych gwybod pa un ai gwirfoddol neu anwirfoddol yw'r trosedd; pa gymmaint o golled neu o niwed mae wedi gael, yn nghyd â phob peth arall gwybodadwy mewn cyssylltiad â'r trosedd; ac yna, y mae yn gofyn iawn, nid er mwyn ymddial, ond hunan-amddiffyniad. Mae'r gosp mewn cyfartalwch i'r trosedd. Rhywbeth tebyg i hynyna wyf fi yn olygu yw cyfiawnder dynol. Etto, ystyrier tad a mam fel dau benteulu; mae'r plant yn amrywio yn fawr oddiwrth eu gilydd mewn tymherau; mae rhai yn ufudd, ac ereill yn anufudd, ond ymddygir tuag atynt oll yn ol eu teilyngdod neu eu annheilyngdod. Nid oes yma bartïaeth yn cael ei ddangos; nid oes un yn cael ei gospi nac yn cael ei wobrwyo yn lle'r llall; a phan y byddo cosp yn cael ei gweinyddu, nid yw yn drymach nag a fyddo yn ofynol, mor gywir ag y gellir deall, er cael y troeddwr i'w le. Llawer mwy cyfiawn, tyner, a pherffaith

yn mhob ystyr yw ymddygiad y Tad Nefol tuag at ei blant o ddynolryw.

Ond yn ol athrawiaeth yr Iawn, mae'r Tad yn myned i golli; nid ydyw yn gyfryw eithr mewn enw yn unig; nid llais Tad a glywir yma, ond cyfiawnder llym, eithafol yn gwaeddi gwaed, gwaed; a gwaedd yw hon nas gellir ei dystewi hyd nes byddo i ddialedd Dwyfol gael *vent* ac ymarllwys yn llwyr ar *ryw un*, hyd y nod ar y diniwed hwnw, yr hwn ni wnaeth bechod erioed, ac ni chaed twyll yn ei enau, yn hytrach na llacau un iod o ofynion cyfiawnder. Onid cynddaredd ddall yw hyn yn hytrach na chyfiawnder y nefoedd? Ond dywedir mai dyma'r cytundeb rhwng y Tad a'r Mab, a bod yn rhaid sefyll at y fargen, sef fod i Grist gymmeryd arno bechodau dynion, a rhoi ei gyfiawnder ei hun iddynt hwy—y cwbl trwy gyfrifiad, ac felly, nad oedd cyfiawnder Duw yn gofyn ond yn unig ei *rights*. Yn ol fy meddwl i, y dwli dylaf yw taeru fod gofynion cyfiawnder yn erbyn yr euog yn cael eu hateb wrth gospi y dieuog.

Mae yr athrawiaeth hon yn agored i wrth-ddadleuon dirif braidd. Os yn Ysgrythyrol, paham y defnyddir geiriau ac ymadroddion an-Ysgrythyrol i'w gosod allan? Pa le yn y Beibl y ceir "cymmodi y Tad â nyni—cyfiawnder cyfrifol Crist—cymmeryd deddfle'r pechadur—Iawn anfeidrol—dwyfol waed—haeddiant Duw—dynol ddwyfol waed—anfeidrol lid?" &c. Etto, a chaniatau gwirionedd athrawiaeth y Drindod er mwyn ymresymiad, yr wyf yn gofyn paham yr oedd cyfiawnder y Tad yn gofyn iawn mwy na chyfiawnder y Mab a'r Yspryd Glân? ac os oedd y ddau berson olaf yn gofyn iawn, pwy dalodd?

A raid credu fod yr Anfarwol wedi marw fel y mae myntumwyr athrawiaeth yr Iawn, o leiaf, rai o honynt yn ein dysgu—

> "Mi gaf yno wel'd fy Nuw
> Gynt fu farw ar y groesbren,
> Heddyw'n ddysglaer, heddyw'n fyw."

Ni wn lai nad yw yn bechod ynwyf i ddyfynu'r fath eiriau cableddus.

Dysgir ni yn yr Ysgrythyr mai "trugarog a graslawn yw yr Arglwydd, hwyrfrydig i lid, a mawr o drugaredd," mai "Duw cariad yw;" ond yn ol athrawiaeth yr Iawn, nid oes trugaredd na chariad yn perthyn iddo; dim ond anfeidrol lid yn mynu anfeidrol iawn am bechodau dynolryw! Pa le mae trugaredd pan ddywedir, "I ddigofaint—i ddigofaint Duw anfeidrol, heb gymmysgedd—i boenau arteithiol uffern y cafodd Crist ei draddodi, a hyny gan ei Dad ei hun," fod "Duw yn sefyll allan am iawn cyflawn, ac nad oedd maddeuant am gymmaint ag un pechod heb hyny." Ar ol y cabledd hwn, melus cofio geiriau'r Salmydd, "Fy enaid bendithia'r Arglwydd, yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau. Cyn belled ag yw'r Dwyrain oddiwrth y gorllewin y pellhaodd Efe ein camweddau oddiwrthym. Fel y tosturia tad wrth ei blant y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef. Canys efe a edwyn ein defnydd ni, cofia mai llwch ydym."

Golygir fod rhai geiriau neillduol yn y Beibl nas gellir eu deall ond yn unol ag athrawiaeth yr Iawn. Yn gyntaf yute y gair Iawn.

Dywedais yn y dechreu ei fod dair gwaith i'w gyfarfod yn y Testament, ond ar ymyl y ddalen darllener "Cymmod," h.y., fel yr wyf fi yn deall fod Duw yn Nghrist yn cymmodi'r byd ag ef ei hun, ac wedi rhoddi i ni weinidogaeth y cymmod; fod yr Efengyl yn allu Duw er iachawdwriaeth i bawb trwy eu dysgu i ymwadu ag annuwioldeb, a byw yn gyfiawn ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awrhon.

Mae y gair "*Pridwerth*" i'w gael mewn tri o fanau yn y Testament Newydd. Pan arferwyd ef gyntaf, dynodai y *pris* neu'r *gwerth* oedd y perchenog yn gael am roi rhyddid i'w gaethwas. Daeth wedi hyny i arwyddo *moddion gwaredigaeth* naturiol neu foesol, yn gystal a *moddion* caffaeliad breintiau tymhorol neu ysprydol. Bu yr Israeliaid unwaith yn gaethion i Pharaoh, ond yr Arglwydd a'u prynodd a'u gwaredodd. Beth oedd y pridwerth—y pris, sef moddion eu gwaredigaeth? Y ffaith yw, rhoddodd yr Arglwydd Pharaoh ei hunan, a llu o'i bobl yn bridwerth drostynt. Pharaoh oedd y pridwerth, a Pharaoh oedd derbyniwr y pridwerth, os dylynir y llythyren. Ond yr hyn sydd i'w ddeall yw i ddinystr Pharaoh a'i bobl eu gwneuthur yn foddion gwaredigaeth yr Israeliaid allan o'u caethiwed. Dywed Solomon, "Yr annuwiol a roddir yn iawn (pridwerth) dros y cyfiawn, a'r troseddwr dros yr uniawn."

Mae caethiwed a gwaredigaeth hefyd yn bod mewn ystyr ysprydol. Mae pechaduriaid yn gaethion i'r meistr pechod, ac mae Iesu Grist yn bridwerth drostynt, hyny yw, y mae yn ei fywyd a'i farwolaeth, yn ei lafur a'i ddyoddefiadau, yn foddion gwaredigaeth iddynt trwy eu dysgu, eu cymhell, a'u perswadio i adael eu pechodau, ac mewn canlyniad, i dd'od allan o'u caethiwed i ryddid gogoneddus plant Duw. Yn yr ystyr uchod y dylid deall fod Crist wedi "rhoddi ei einioes yn bridwerth dros lawer." Mewn cyffelyb ystyr y ceir y geiriau *prynu* a *phrynedigaeth* yn eu cyssylltiad â'r hyn a wnaeth yr Iesu fel Iachawdwr y byd.

Yn awr, gan na ellir gosod y baich ar neb arall, a ga pechadur faddeuant a derbyniad gan Dduw ond yn unig iddo edifarhau, gadael ei bechodau, a byw yn rhinweddol? Yr wyf yn ateb y câ, a hyny ar gadarn sail yr Ysgrythyrau. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychweled at yr Arglwydd, ac Efe a gymmer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, o herwydd Efe a arbed yn helaeth. Mewn ychydig soriant y cuddiais fy ngwyneb oddiwrthyt enyd awr; ond â thrugaredd dragywyddol y trugarhaf wrthyt, medd yr Arglwydd dy waredydd. Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau, ac a'n glanhao oddiwrth bob annghyfiawnder. Ond os yr annuwiol a ddychwel oddiwrth ei holl bechodau y rhai a wnaeth, a chadw fy holl ddeddfau, a gwneuthur barn a chyfiawnder. Efe gan fyw a fydd byw, ni bydd efe marw." Ystyrier dammeg y Mab Afradlon. Pa beth geir yno? Pa beth orfu i'r afradlon wneyd cyn cael y wisg oreu, yr esgidiau, a'r fodrwy, a'i wala o'r llo pasgedig, &c.? Dim ond edifarhau, dychwelyd adref, ac addaw byw yn ufudd i ewyllys ei dad. Felly, bechadur, cai dithau dderbyniad croesawus gan Dad trugarog pan ddychwelot yn edifeiriol

o gyfeiliorni dy ffyrdd, a rhodio llwybrau uniawn gwirionedd a chyfiawnder.

Dywed George Macdonald, un o'r *orthodox*, nad yw gwisg o gyfiawnder cyfrifol ddim amgen na gwe'r cor cyfreithiol (*legal cobweb*) o'r fath waelaf, wedi ei gwau gan gorynod ysprydol. Efe sydd yn gyfiawn, yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder, a neb arall; ac unrhyw *system* a'i thuedd i berswadio dynion y gellir bod yn gyfiawn heb weithredu cyfiawnder fel yr Iesu; y gall dyn gael ei wneuthur yn dda, fel y mae ei da yn dda, heb fod gan ei ewyllys ddim i wneuthur â'r peth; fod dyn yn cael ei achub trwy guddio ei bechodau dan wisg o gyfiawnder cyfrifol—y *system* hon sydd o'r diafol ac nid o Dduw."

Yn y *Christian World (orthodox)*, dywedodd rhywun, yn ddiweddar: —"Duw mewn 'stad o ddigofaint at elyn dynol; yn rhwym gan ei gyfiawnder ei hun i gospi am bechod, ond nid yn rhwym i gospi'r pechadur, fel yr ymddangosai mae cyfiawnder yn gofyn; yn foddlon cymmeryd Iachawdwr diniwed yn aberth yn ei le, yn mlaen at yr hwn y mae ei ddigofaint yn cael ei droi, a chyfiawnder yr hwn sy'n cael ei drosglwyddo i'r euog, fel hyn yn gosod mwgwd (*mask*) ar annuwioldeb ac nid ei lwyr ddileu—y fath, mewn effaith, yw'r Iawn fel ei gosodir allan gan awdurdodau yr Eglwys. Ond y mae cymhelliadau gwell Cristionogaeth, o'r diwedd, wedi arwain dynion i geisio a chael ynddi yn lle hyn hunan-aberth Crist, 'nid i fod yn Iawn i'r Tad, ond i gyrhaedd calon y crwydryn.' Yn ol un olwg, gwaith dialedd Duw yw Calfaria; yn ol y llall, y mae yn ddatganiad goruchel o'i gariad anfeidrol."

THOS. THOMAS.

CRISTIONOGAETH A DYN.

"Rhaid ydyw iddo Ef gynnyddu, ac i minau leihau."—IOAN FEDYDDIWR.

YN mhob oes a gwlad y mae nerth crefydd wedi bod yn gynnwysedig yn ei addasrwydd i angenion y natur ddynol. Felly, y mae wedi bod mewn graddau amrywiol gyda holl grefyddau y byd. Nid oes yr un wedi bodoli am unrhyw amser maith, ac wedi cael dylanwad helaeth, heb ddangos ei addasrwydd i gyfarfod angenion dynoliaeth. Y mae wedi cydgordio â'r natur ddynol, wedi cyfarfod â rhyw angen teimladwy, wedi appelio gyda nerth at reddfau crefyddol yr enaid dynol, ac yn herwydd hyny, wedi denu a rhifo lluaws mawr o ddylynwyr, ac wedi byw oes ar ol oes, gan gario dylanwad mawr a sylweddol ar ddynolryw. Y mae hyn yn wir am grefyddau ereill, ond y mae hyn yn neillduol wir am Gristionogaeth; ac yma, fel yr ymddengys i ni, yr arddangosir gwir ddirgelwch ei gallu. Y mae yn cydweddu â'r

natur ddynol, yn appelio at ddyn, ac fel crefydd yn cyfarfod â'i angenion fel bod anmherffaith a chrwydrol, ond ysprydol ac ymgeisiol. Y mae hyn, yn gymmaint â dim, yn dangos fod Cristionogaeth yn alluog o barhad a sefydlogrwydd, ac wedi ei haddasu er llywodraeth gyffredinol a byth-gynnyddol. Nid yw yn gosod ei hunan i fyny mewn gwrthwynebiad i unrhyw awydd naturiol, i unrhyw alwad gyfreithlon, i un gwrthddrych priodol, neu egwyddor. Nid yw yn galw arnom i wrthod a diystyru un rhan o'n natur, nac i roddi gormod o'r ffrwyn i un o honynt.

Y mae yn cydnabod corff a meddwl ill dau fel gwaith yr un a'r unrhyw Dduw, ac wedi cael eu hamcanu i weithredu mewn undeb â'u gilydd. Yn wir, y mae ein hymddiried yn nghynnydd neu flaenfynediad dyfodol a buddugoliaeth orphenol Cristionogaeth yn gorphwys ar y sylfaen hon; fod cyfatebiad, perthynas agos a chyfeillgar, rhwng yr Efengyl ar un llaw, a'r natur ddynol ar y llaw arall.

Yn herwydd fod crefydd Crist yn appelio yn uniongyrchol at egwyddorion neillduol, galluoedd a chyfaddasiadau cuddiedig, yn mhob bod dynol, ac yn herwydd fod y cyfryw yn addasedig i ddadblygu y galluoedd yma, i'w gwrteithio a'u perffeithio, ac felly yn raddol ond yn sicr o urddasu yr holl ddyn—oblegyd hyn oll y mae yr Efengyl wedi byw yn hanes y byd yn agos, yn awr, i bedair canrif ar bymtheg, wedi ymdaenu dros ran fawr o arwynebedd y ddaear, ac megys wedi ymgymmysgu yn gyfeillgar â sefydliadau a chymdeithasau dynol. Oni buasai ei haddasrwydd i'r natur ddynol, buasai Cristionogaeth, yn ol pob tebygolrwydd, wedi trengu er ys oesoedd yn ol.

Y fath gyfnewidiadau nerthol sydd wedi cymmeryd lle yn y byd oddiar pan y teithiodd y proffwyd o Nazareth dros wlad Judea, yn gwella y claf, ac yn pregethu newyddion da o lawenydd mawr y deyrnas. Y mae ymerodraethau wedi tyfu i fyny, wedi blodeuo, ac wedi nychu a diflanu; penaduriaethau wedi codi i allu, wedi cyrhaedd eu mawredd eithafol, ac yna wedi cilio ymaith fel cysgod. Y mae breninoedd dirif wedi, megys, ymhedeg trwy eu hoes fer o rwysg a llywodraeth, ac yna wedi syrthio i'r dystaw fedd. Y mae llanw chwildroadau wedi treio a llifo dros y ddaear, gan ddirysgwyd cenedloedd hyd y nod i'w calonau; dullian ac arferion cymdeithas wedi eu cyfnewid drosodd a throsodd; sefydliadau dynol o bob math wedi ymsaethu i fyny i fodolaeth, ac wedi cario eu dylanwad byr ei barhad er daioni pobl neillduol, ac yna wedi rhoddi lle i ereill ydynt, yn eu tro, wedi pasio ymaith. Ond er yr holl gyfnewidiadau yma, y mae un peth wedi dyfod i waered yn ei gyfiawnder a'i allu cynhenid hyd at ein hamser ni.

Yn ngwyneb yr holl ddadfeiliad a'r marwolaeth yma, y mae un peth wedi byw oes ar ol oes, gan gynnyddu yn araf mewn dylanwad da gyda threigliad yr oesau. Y grefydd ydyw a bregethwyd gyntaf ar benau mynyddoedd neu fryniau Galilea, i glywedigaeth tyrfaoedd bychain o bobl oeddynt wedi ymgasglu yn nghyd i wrando ar yr hyn oedd gan y pregethwr newydd i ddywedyd.

Ac y mae yn deilwng o sylw na ddarfu i Gristionogaeth ddyogelu ei hun wrth sefyll draw, trwy unigo a gwahanu ei hun oddiwrth ymorchestau y cenedloedd. Hebryngodd neu cydymdeithiodd gyda breninoedd; ond er iddynt hwy drengu, hi a'u holoesodd. Ysprydolodd y penboethni a'r brwdfrydedd a arweiniodd i Ryfeloedd y Groes, gyda'u haberthau dychrynllyd o frwydrau dynol; ond pan aeth y rhyfeloedd annoeth yma drosodd, bu byw y grefydd o hyd. Yn ngwyneb treigliad yr oesau, daeth yn gymhlethedig â baich trwm, ac wedi i'r baich hwnw fod yn cynnyddu dros dymhor maith a adnabyddid wrth yr enw "Yr Oesoedd Tywyllion," taflodd o'r neilldu y rhan hono oedd fwyaf orthrymus, a chododd i fywyd newydd a gallu newydd yn amser y Diwygiad. Ac wedi hyny, hefyd, y mae wedi cael ei gwyrgamu gyda phob math o ffug-chwedlau ac afresymoldeb; a chyda gwyrdroad afresymol o'i hamcan gwreiddiol, y mae wedi cael ei gwneyd i wasanaethu neu i ddwyn oddiamgylch yr amcanion gwaethaf, ac etto, ac er gwaethaf hyn oll, y mae wedi dyogelu a chadw ei bywiogrwydd a'i gallu.

Yn awr, y mae yn ofyniad dyddorol, Pa beth yw y rheswm, neu pa fodd y mae cyfrif am y parhad yn ngwyneb y ffurfiau cyfnewidiol yma o gymdeithas a bywyd dynol? Pa fodd y mae hi wedi oloesi a byw mor fywiol a ffres, a chynnyddu mewn dylanwad, pan y mae cymmaint wedi colli y dydd ac wedi diflanu? Onid yw hyny yn codi oddiar y ffaith o berffaith gydgordiad y grefydd Gristionogol gyda dynoliaeth, oddiar yr ystyriaeth ei bod, yn ei hegwyddorion arweiniol, yn grefydd naturiol? Ac o ganlyniad, fod dyn wedi ei derbyn a'i chroesawi megys ei gâr a'i gyfaill goreu yn ei ymdrech â thywyllwch a drygioni. Ei chenadwri, yr hon nid yw wedi cael ei hamgyffred ond i raddau anmherffaith hyd y nod yn bresenol, yw wedi bod i buro y byd, a chodi a bendithio dynoliaeth. Fel y byddo i ddwyn oddiamgylch a pherffeithio yr amcan yma, y mae rhaid iddi gael ei dwyn i gyffyrddiad â holl fuddiannau pwysig ac amryw dynoliaeth. Rhaid i ni ei dwyn i gyssylltiad ac i ddylanwadu ar holl ddyledswyddau cyhoeddus bywyd, ar ein bywyd cenedlaethol a chymdeithasol yn ei amrywiol agweddau. Y mae yn rhaid i ni lafurio i ddwyn ei dylanwad ar ein cyfreithiau, ein sefydliadau addysgiadol a gwleidyddol. Dylai y rhai yma oll gael eu tymheru gan yspryd yr Efengyl, a'u dyrchafu i'w safon hi o burdeb moesol.

Cristionogaeth yw y maen prawf, trwy yr hwn y dylai cymmeriad moesol gael ei brofi; y dafol neu y glorian, yn yr hon y dylai ei hawliau gael eu pwyso. Ac y mae ei chydgordiad a gwir fuddiannau dyn yn ei gwneyd yn faen prawf teg i'w gymhwyso. Dylai yr hyn na all sefyll y maen prawf yma gael ei gondemnio fel peth annghysson a gwir ddaioni a dyrchafiad dyn. Os yw Cristionogaeth i fyw a blodeuo yn y dyfodol, ni all wneyd felly ond i'r graddau y mae yn cael ei huno yn gyflawn a thrwyadl ag angenion moesol ac ysprydol ein hil. Pwy bynag sydd yn amcanu at sylweddoli hyn yma, mae yn rhoddi y gwasanaeth mwyaf a goreu i grefydd yn gystal â dyn.

INQUIRER (L.)

Y POST AM FLWYDDYN.

Mae y *Post Office* yn un o'r trefniantau rhyfeddaf a mwyaf gwasanaethgar yn y wlad, a dylai pob dyn fod yn ddiolchgar am dano. A barnu wrth yr Adroddiad Blynyddol diweddaf,—yr unfed-ar-ddeg-ar-hugain, gan Mr. Shaw-Lefevre, cyn cael ei alw i roddi ei swydd i fyny, ymddengys fod perffeithrwydd yn agos wedi cael ei gyrhaeddyd yn St. Martin's le Grand, Llundain. Nis gellir yn rhesymol ddysgwyl rhagor o waith nag a wnaed yn nghorff y flwyddyn. Yr oedd cynnydd amlwg wedi bod yn mhob cyfeiriad, oddieithr yn nghangen y llythyron cofrestredig (*registered letters*). Yr oedd wedi bod fel arall yma, ond nid oedd y golled hon yn ddrwg i gyd, oblegyd yr oedd yn profi fod mwy o ymddiried gan y bobl yn nyogelwch y llythyrdai cyffredin neu arferol. Mae yn werth ei wybod fod trigolion y Deyrnas Gyfunol yn ysgrifenu mwy o lythyron nâ thrigolion un wlad arall yn y byd. Gyda'u gilydd anfonodd pob un drwy'r post y flwyddyn ddiweddaf—o lythyron, 38; o lythyr-gerdynau (*post-cards*), 4; o lyfr-sypynau (*book-packets*), 8; ac o newyddiaduron, 4; heblaw y 22,904,373 bwrneli a basiodd trwy y post. Mwy nâ 1,300,000,000 o lythyron a drosglwyddwyd yn ystod y deuddeg mis; cyfanswm y sypynau o wahanol bethau a ddodwyd yn y post yn gwneuthur i fyny y rhifedi o 2,007,677,573. Nis gellir llai nâ synu uwchben yr holl rifnodau yma, etto mae'r gwaith yn myned ar ei gynnydd yn barhaus, ac nid oes pendraw iddo. Yn ystod y flwyddyn agorwyd yn agos i 500 o lythyrdai newyddion, yn gwneuthur i fyny y cyfanswm o 16,434, mewn ychwanegiad i 33,000 o dderbynfaoedd, megys *pillars*, *letter-boxes*, a'r cyffelyb. Mae 48,000 o bersonau bob amser ar waith, o ba rai y mae 3,000 yn fenywod. Y mae *Report* y *Postmaster-General* yn dangos fod yn y wlad rifedi dirfawr o bersonau esgeulus dros ben, neu absenol eu meddyliau. Meddyliwch am dros bum myrddiwn o ryw bethau neu gilydd, nid yn unig yn myned i'r *dead-letter office*, ond yn aros yno yn anadchweladwy, o herwydd diofalwch yr anfonwyr, neu rywbeth tebyg! O'r pum myrddiwn uchod, yr hyn sydd braidd yn annghredadwy, yr oedd 26,472 o lythyron wedi eu postio heb un *address* arnynt, a thros 1,600 o honynt yn cynnwys arian. At y personau penffol, difeddwl hyn, rhaid ychwanegu nifer fawr o rai diofal ac aflerw. Yr oedd dros 45,000 o *barseli*, y rhai ni chyrhaeddasant ben eu taith, o herwydd eu bod wedi cael eu *packio* mor annyogel, rai o honynt, ac ereill o herwydd fod yr *address* yn annghyflawn, neu yn anncalladwy. Mewn llythyron blwyddyn gwelem gofrestriad maith o lawenydd a thristwch; a gwnai cipolwg ar gynnwysiad y *parseli* roi ar ddeall i ni mor luosog ac amrywiol yw angenion y creadur o ddyn. Yn un o'r *parseli* yma, clywid swn dyeithr, ac wedi ei agor, beth oedd ynddo ond dylluan fyw! Yr oedd un person, ac er mwyn cynnilo yn ddiau, wedi ysgrifenu llythyr o chwech gair ar hugain, ar gefn *postage stamp* ceiniog, yr hwn a aeth yn ddyogel i law y sawl yr oedd wedi cael ei gyfeirio iddo. Mae banciau cynnilo y *Post Office* yn llwyddiannus tuhwnt. Y swm dyledus i'r cynnilwyr yw pum myrddiwn a deugain, o fewn i ychydig,—tair myrddiwn yn rhagor

nâ'r flwyddyn o'r blaen. Rhif y negesau trwy y pellebryn oedd 33, 278,459 ; a rhoddwyd allan arian-archebion (*money orders*) i'r swm o bedair myrddiwn ar hugain. Crynswth cyllid y *Post Office* am y deuddeg mis oedd deg myrddiwn o bunnau ; ac ar ol talu pob treuliau yr oedd yn ngweddill i fyned i gôd y Llywodraeth, £2,646,298. Wedi cyhoeddiad yr Adroddiad blaenorol, dygwyd i mewn amryw welliantau —un yn neillduol, sef mynediad a dyfodiad llythyron yn llawer cyflymach. Gellir yn awr bostio llythyr yn Paris, yn Ffrainc, hwyr ddydd Mawrth, wedi ei gyfeirio i Yorkshire, a chael atebiad gyda'r post yn gynnar boreu dydd Iau. Gyda chymmaint brys â hyn, rhaid hyd y nod i'r *telegraph* ofalu am ei lawryf (*laurels*).

Allan o'r *Christian World* am Gorphenaf, 1885, gan

Ap Ioan.

Y GWAHANIAETH RHWNG TORIAETH A RHYDDFRYDIAETH.

Cydnebydd y testyn fod gwahaniaeth rhwng Toriaeth a Rhyddfrydiaeth, ond pa beth yw? Wel, os ydym i gymmeryd y pleidiau a gynnrychiolant y ddwy egwyddor a enwyd ar eu proffes, y maent yn un o berthynas i les, llwyddiant, a dyogelwch y cyfansoddiad ; ond gwahaniaethant yn mherthynas y moddion y dylid ei ddefnyddio i sylweddoli y lles, y llwyddiant, a'r dyogelwch hyny. Ac fel yr ymddengys pethau i mi, dyma wreiddyn y gwahaniaeth cydrhyngddynt.

Y moddion y mae Rhyddfrydiaeth yn gredu y dylid ei ddefnyddio i sylweddoli lles, llwyddiant, a dyogelwch cyffredinol a pharhaol y cyfansoddiad, ydyw cydnabod holl hawliau personol pob aelod o'r wladwriaeth, a gwneuthur buddiant y cyfansoddiad yn fuddiant personol pob aelod o hono ; mai o'r pridd y daethom, ac mai i'r pridd y dychwelwn, ac felly, mai ein dyledswydd ydyw edrych ar, a chydnabod y naill y llall fel ein cydradd. Ond, ar y llaw arall, y mae Toriaeth yn credu nas gall dim fod yn fwy andwyol i fuddiannau sylweddol y cyfansoddiad na rhyddfreiniad y werin. Hanfod Toriaeth ydyw yr hyn a eilw y Sais yn "*privileged caste*," h.y., fod Duw wedi gwneyd dau ddosparth o ddynion, ond, yn anffodus, mai dyben bodolaeth politicaidd y naill ydyw gweini ar y llall ; neu, fel y dywed Lord Randolph Churchill—mor ddiweddar ag 1883, yn Edinburgh—"annghydraddoldeb doeth natur." Nid oes gan yr unigolion a gyfansoddant y dosparth sydd i weini ar y llall, ynte, y fath beth a hawl bersonol ; gan hyny, afreidiol ac ofer ydyw myned i'r drafferth o gydnabod peth nad yw yn bodoli.

Yn awr, fy nghyfeillion, yr wyf yn dweyd—ond nid yw hyny yn y mesur lleiaf yn cyfleu eich bod chwi yn dweyd—mai cymhwysiad y ddwy egwyddor a enwyd bresenola yn fyw o flaen eich meddwl chwi a minau—gwladlywiaeth Rhyddfrydiaeth, a gwladlywiaeth Toriaeth, ar

hyd yr oesoedd. Ac ni a gawn ddechreu trwy ddweyd, fel yr ydych yn gwybod, fod Toriaeth wedi enwogi ei hunan mewn un peth yn arbenig, yn y nawdd diragrith y mae bob amser, ac ar bob achlysur, wedi ei roddi i'r llys. A phaham? Brodyr yn y ffydd ydynt. Anelant eu saethau at yr un nôd, sef goruwchafiaeth un dosparth ar y llall mewn cymdeithas: o ran hyny, un o'r colofnau cryfaf i'r gyfundraeth Doriaidd ydyw y llys. Gyda'u gilydd, ynte, y mae yn gweddu iddynt fod. Un o ganlyniadau anocheladwy yr athrawiaeth Doriaidd ydyw dwyn ei phleidwyr drosodd i dir o annghyfrifoldeb ac annibyniaeth; ac yn wir, dyma fel yr oedd hi. Yn y cyfnod Stuartaidd o hanes Lloegr, yr oedd y Toriaid yn dadleu fod y brenin yn derbyn ei awdurdod oddiwrth Dduw—fod ewyllys brenin uwchlaw cyfraith, ac felly, mai i Dduw yr oedd yn gyfrifol, ac nid i ddeiliaid ei lywodraeth. Athrawiaeth fawr Rhyddfrydwyr yr un cyfnod, ar y llaw arall, oedd, er eu bod yn cydnabod hawliau personol, etto, fod i'r rhai hyny eu terfynau, hyd y nod yn mherson y brenin, neu, mewn geiriau ereill, nad oedd efe uwchlaw cyfraith, ond ei fod mor rhwymedig a chyfrifol iddi a neb pwy bynag. Fod awdurdod y brenin yn dylifo o ewyllys y genedl—mai ewyllys y bobl, yn ngwyneb mai hwy oedd yn cyfranu i ddwyn treuliau y deyrnas, ddylasai fod yn oruwchaf yn ngosodiad y trethi; mai, yn ngwyneb taw oddiar y bobl y dysgwylid ufudd-dod i'r deddfau, cyfiawnder â hwy ydoedd cael llais yn eu gwneuthuriad. Cymdeithas yn gyffredinol ydyw ffynonell pob awdurdod wladol, ebai Rhyddfrydiaeth, ac nid un dosparth o honi. Dwyn yr egwyddorion hyn yn ymarferol ydoedd gwaith mawr Rhyddfrydiaeth yn yr ail ganrif ar bymtheg, ond costiodd eu dygiad i fuddugoliaeth ryfel gartrefol, a dienyddiad Charles I. Wedi llwyddo i ddarostwng trawsarglwyddiaeth y penadur ar gymdeithas, a'i gwneyd yn rhwymedig arno i weini arni, y peth nesaf ar brogram Rhyddfrydiaeth ydoedd hwyluso ei chamrau yn nghyfeiriad cydraddoldeb gwahanol ddosparthiadau cymdeithas; ond er mwyn dal y cyferbyniad rhwng Toriaeth a Rhyddfrydiaeth yn ddigon amlwg o flaen llygaid ein meddwl, a chael gweled a yw y gosodiadau a wnaed genym o berthynas iddynt yn wirioneddau cyffredinol, gwell fydd cymharu eu gwahanol weinyddiaethau. Mewn trefn i wneyd hyny, nid oes achos gwell cyfle na chymharu yr 50 mlynedd blaenorol i 1831, a'r 50 mlynedd dylynol i hyny. Am y 60 mlynedd blaenorol i 1831, o ran hyny, bu y Toriaid mewn awdurdod agos yn ddifwlch. A pheth ydyw hanes y cyfnod hwnw? Wel, yr oedd y *test* ar *corporation acts* a gafodd eu bodoliaeth yn amser Charles II. i amddifadu Ymneillduwyr o freintiau ag oedd yn ddyledus iddynt wedi eu trosglwyddo i lawr o oes i oes yn hynod o ddiserenmoni, ac er mai yr egwyddor amlwg ag oedd wrth wraidd y cyfreithiau hyny ydoedd yr awydd angerddol i arglwydd'aethu ar farnau a chydwybodau dynion, etto i gyd, cawsant yr amddiffyniad mwyaf gan y weinyddiaeth Doriaidd, oni bai i Russel a'i gyd-ddiwygwyr brofi eu hunain yn ddrain yn eu hystlysau. Yn mhellach, yr oedd Prydain Fawr yn y cyfnod y cyfeiriwyd ato ar yr enw o fod yn cynnal llywodraeth gynnrychioliadol; ond teg ydyw dweyd mai mewn enw yn unig oedd, oblegyd ychydig iawn, iawn oedd

a hawl ganddynt i bleidleisio, a'r canlyniad oedd nad oedd y rhai a etholid yn gynnrychiolwyr cyffredinol y genedl.

Yn y sefyllfa hon, yr oedd cymdeithas yn ymeangu, angenion newyddion na allesid ystyried fod dim yn gyfiawn wad iddynt ond yr hawl i bleidleisio, yn tori allan yn gysson, ac yn cael *rent* mewn achwyniadau parhaus. Ond ofer fu holl gri y wlad am ddiwygiad gan y weinyddiaeth Doriaidd. Yn y diwedd, rhwystrid hi i fyned yn mlaen â'i gwaith, ac, yn hytrach nag ymostwng i roddi bil diwygiadol i'r wlad, dewisodd ymddiswyddo. Ai nid yw hyn, ynte, yn profi gwirionedd y gosodiad mai hanfod Toriaeth ydyw myntumiad goruwchafiaeth un dosparth ar y llall mewn cymdeithas? Ond yn yr 50 mlynedd dylynol i 1831, y mae genym fwyafrif o weinyddiaethau Rhyddfrydig, a beth ydyw hanes y rhai hyny? Wel, cyfarfuwyd ag angenion y bobl gan weinyddiaeth Rhyddfrydig Iarll Grey yn 1831, trwy roddi bil diwygiadol iddynt. Beth oedd y mesur hwnw? Cam bras yn nghyfeiriad cydnabyddiaeth yr hawl hono sydd yn anwahanedig oddiwrth natur pob dyn, pa un bynag ai gwreng ai boneddig fyddo, i gael rhan yn llywodraeth ei wlad. Yn 1834, dyddimwyd y gaethfasnach yn y trefedigaethau Prydeinig yn India'r Gorllewin gan yr un weinyddiaeth. Beth oedd yr egwyddor ag oedd wrth wraidd y mesur hwnw? "Car dy gymmydog fel ti dy hun." Y mae gweinyddiaethau Rhyddfrydig yn enwog am eu rhoddion arianol at ddybenion addysgawl. Yn 1861, dyddimwyd treth y papyr gan weinyddiaeth Palmerston. Beth oedd amcan y rhoddion a enwyd, yn nghyd â dyddimiad y dreth uchod? Symmud ymaith y rhwystrau i chwi a minau wybod beth yw ein hawliau. Yn 1872, cawsom y tugel *(ballot)* gan Mr. Gladstone. A beth oedd enaid y mesur hwnw? Trosglwyddiad dyn i'r unigrwydd hwnw, lle y gall dderbyn cyfarwyddiadau ei gydwybod, ac nid cyfarwyddiadau teyrnas dychryn. Cydnabyddir mesur diwygiadol 1884 hefyd fel cam pellach yn nghyfeiriad cydnabyddiaeth yr hawl awgrymwyd yn flaenorol. Hanfod Rhyddfrydiaeth, ynte, ydyw cydnabod holl hawliau personol pob aelod o'r wladwriaeth, a gwneuthur buddiant y cyfansoddiad yn fuddiant personol pob aelod o hono. "Ond," ebai rhywun, "nid ydych yn dweyd y gwir i gyd; nid ydych wedi yngan gair am ddyddimiad gogoneddus deddfau gorthrymus yr ŷd, na mesur diwygiadol 1867, a hyny, gallwn feddwl, oblegyd mai gweinyddiaethau Toriaidd a'u pasiodd." Eithaf da. Un gofyniad syml. A oes rhyw ddyn cyhoeddus heddyw y gellir ei ystyried yn gynnrychiolydd cyflawn o egwyddorion Toriaidd yn ymffrostio mewn masnach rydd? Nid wyf fi yn gwybod am dano, beth bynag; ond soniwch chwi am fasnach deg wrtho, a gwefreiddiwch ei enaid ar yr un pryd. Barnwch chwi paham. Nid yw y Toriaid, ychwaith, yn tadogi mesur diwygiadol 1867, ond diarddelant ef trwy ei alw yn *leap in the dark*. Dirwasgiad allanol, ac nid parch gwirfoddol at y mesurau, ydoedd yr achos o'u pasiad. I ddiweddu, Toriaeth—rhoddi pwys ar yr hyn sydd gan ddyn, megys ei feddiannau. Rhyddfrydiaeth—rhoddi pwys ar yr hyn yw dyn, sef ei fod yn greadur rhesymol a moesol, ac felly, o ran ei natur, yn meddu ar hawliau. Toriaeth—gwrthwynebu rhyddid,

rhag ofn y canlyniadau. Rhyddfrydiaeth—parchu rhyddid, oblegyd ei fod yn dda ynddo ei hun. Toriaeth—uwchraddoldeb ac israddoldeb. Rhyddfrydiaeth—cydraddoldeb. Y mae y syniad o oruwchafiaeth un dosparth ar y llall mewn cymdeithas yn gwneuthur yn bur effeithiol ar gredo fod pob oes yn dadblygu ei hangenion ei hunan, ac yn yr ystyr yma, daw priodoldeb y dywediad am Doriaeth yn amlwg mai "megys yr oedd yn y dechreu, y byddo yr awr hon, ac y parhao hyd byth." Ond y mae Rhyddfrydiaeth, nid yn unig yn credu fod pob oes yn dadblygu ei hangenion ei hunan, ond hefyd fod nerth, llwyddiant, a dyogelwch y cyfansoddiad yn ymddybynu ar y cyflenwad a roddir iddynt.

Tonypandy. RHYDDFRYDWR.

NODYNAU GWASGAROG.

"DUW Y DUWIAU."

Yr ydym yn dywedyd, weithiau, y dylai iaith ein crefydd fod yn un Ysgrythyrol, ac, weithiau, cwynwn am fod llawer o ymadroddion an-Ysgrythyrol mewn ymarferiad yn ein gwlad. ac awgrymwn, pe cedwid yn agosach at lythyren yr Ysgrythyr, na fyddai dim cymmaint o le i sectariaeth. Mae llawer o wir yn hyn. Ond o'r tu arall, onid teg y gofyniad, A yw iaith yr Ysgrythyr yn un sydd, dan bob amgylchiad, yn briodol i ni i'w defnyddio? Er enghraifft, ni glywn yn fynych yn y pwlpud yr ymadrodd, "Duw y duwiau, ac Arglwydd yr arglwyddi." A ydyw yr ymadrodd hwn yn un priodol i ni? Ymddengys i mi nad yw. Nid ydym ni yn credu mewn lluaws o dduwiau; sut y gallwn eu cydnabod yn briodol yn ein hiaith? Os dywedir fod yr ymadrodd yn Ysgrythyrol, fy ateb yw, nad yw yr ymadrodd yn wir, ac na ddylid ei ddefnyddio genym ni. Mae yn ddiamheu y credai yr Iuddewon un amser yn ngwirionedd yr ymadrodd. Nid oeddynt yn amheu bodolaeth duwiau y cenedloedd, er y credent yn rhagoriaeth eu Duw eu hunain. Yma gorwedd y gwahaniaeth rhwng Undduwiaeth ac Unigdduwiaeth, rhwng *Henotheism* a *Monotheism*. Nid oedd Undduwiaeth yr Iuddewon yn yr oesoedd boreu yn cau allan y syniad o fodolaeth duwiau ereill. Un oedd Duw yr Iuddewon y pryd hwnw, eu Duw hwy mewn ystyr arbendig, nid yr unig Dduw; ond nid oedd duwiau cenedloedd—er yn cael eu cydnabod yn dduwiau—yn ddim mewn cymhariaeth i'w Duw hwy. Syniad diweddarach oedd y syniad am yr unig Dduw, Creawdwr nef a daear, ac unig wrthddrych priodol addoliad pob creadur rhesymol yn mhob man.

"ER MWYN CRIST."

Yn mhellach, yr wyf yn dymuno gofyn gyda phob gostyngeiddrwydd a charedigrwydd yspryd opiniwn y brodyr, a ydyw yn rhesymol i Un-

dodwr gyda'r syniadau a broffesir ganddo, i ofyn maddeuant gan Dduw *er mwyn Crist?* Nid yw sylfaen maddeuant Duw i ddyn, fel yr ymddengys i mi, yn gorphwys ar yr hyn yw Crist, ond ar yr hyn yw Duw, a'r hyn yw y dyn ei hunan sydd yn derbyn y maddeuant. Pwnc maddeuant yw, nid beth oedd Crist, ond beth yw dyn. A yw y dyn ei hunan y peth y dylai fod? A yw efe o dymher faddeugar—yn maddeu i creill eu camweddau—yn maddeu fel yr oedd Crist yn maddeu? Maddeu i ni ein camweddau, fel y maddeuwn ninau i'r rhai a gamweddasant i'n herbyn. Mae'n wir fod yn yr hen gyfieithiad o Ephesiaid iv. 32, ryw liw o sail i'r syniad, mor bell ag y gellir cymmeryd cyfieithiad yn sail i syniad, fod Duw yn maddeu er mwyn Crist; ond yn y cyfieithiad diwygiedig o'r Beibl Seisnig, mae yr un sail ymddangosiadol hwn wedi diflanu. Ni ddywedir bellach fod Duw yn maddeu er mwyn Crist ond yn Nghrist; ac yr wyf yn gofyn, os nad yw y syniad fod Duw yn maddeu er mwyn Crist yn Ysgrythyrol nac yn rhesymol, ar fod yr ymadrodd yn cael ei anwybyddu o hyn allan yn y pwlpudau Undodaidd yn Nghymru.

"BETH YW SYLFAEN EIN CRED."

Ac etto, oni arbedai i ni lawer o drafferth fel Undodiaid pe y gofynem bob amser yn gyntaf, nid a yw peth Ysgrythyrol, ond a yw yn rhesymol, a yw yn debygol? Ac yna, os mynir, at y Gair a'r Dystiolaeth. A allem ni gredu yr athrawiaethau poblogaidd am y Drindod, yr Iawn, Cosp Dragwyddol, &c., pe gellid eu profi yn Ysgrythyrol? A allwn ni gredu unrhyw beth am Dduw sydd yn croesi ein syniad ni am y rhesymol a'r cyfiawn? Pe dywedai yr Ysgrythyr fod du yn wyn neu wyn yn ddu, nis gallem ei gredu. Camsynied oedd yr hen wraig a dybiai fod yn rhaid iddi gredu yr Ysgrythyr hyd y nod pe dywedai fod Jonah wedi llyncu y morfil. Pe gellid profi o'r Ysgrythyr fod tri yn un ac un yn dri yn yr un ystyr, gallem synu at gyfrwysder yr hwn sydd yn gallu hyny, ond yn sicr, nis gallwn gredu peth sydd mor gwbl groes i'r dystiolaeth a rydd ein rheswm o'r hyn a ddylai fod. A phe gellid profi fod yr Ysgrythyr yn dysgu fod cosp ddyfodol yn gosp dragwyddol, a fyddai yn bossibl i ni dderbyn hyny tra yn dal ein syniad presenol am Dduw fel Duw cyfiawn na wna gam â gwr yn ei fater, fel Duw cariadlawn, un na all ond yr hyn sydd yn unol â daioni ei natur? Nid y pwnc yw, A fydd Duw yn cospi, caniatawn hyny yn rhwydd, gan ei fod yn gysson á rheswm a chyfiawnder, yn ogystal ag Ysgrythyr, iddo wneuthur hyny; ond y pwnc yw, A fydd Duw yn cospi yn ddi-ddyben-da? A all efe gospi oddieithr er lleshad yr hwn a gospir? Gall y bydd y gosp yn ddychrynllyd, y tuhwnt i ddim a allwn ei ddychymygu; ond rhaid iddi fod yn gyfiawn, yn gyfartal i'r trosedd, ac er lleshad y troseddwr, neu ni fydd yn gysson â chariad anfeidrol y Tad Goreu. Ein tystiolaeth sicraf ni am Dduw yw y rheswm a roddes Duw ei hunan i ni, i'n goleuo ar ein gyrfa ddaearol.

"A GAWN NI FARNU YR YSGRYTHYR?"

A ydyw ein rheswm, gan hyny, i farnu yr Ysgrythyrau? Pam lai? Fe ddywedir wrthym fod rheswm yn gnawdol, yn dwyllodrus, yn rhy fyr ac yn rhy gyfyng ei gyrhaeddiadau. Gwir nad yw ein rheswm yn anffaeledig—nad yw uwchlaw cyfeiliornad; ac etto, onid â'n rheswm yn unig y byddwn ni yn barnu gwerth yr Ysgrythyrau, ac yn edrych am help oddiwrthynt. Ond y mae'r Ysgrythyr, meddir, wedi ei roddi gan ysprydoliaeth Duw. O'r goreu, ond sut y mae i ni wybod hyny, oddieithr i ni ddefnyddio ein rheswm? Dyma ymresymiad Paul (gwel 2 Tim. iii. 16, yn y Cyfieithad Diwygiedig Seisnig), "Pob ysgrythyr wedi ei roddi gan ysprydoliaeth Duw, sydd *fuddiol* hefyd," ond sut y gwelwn ni y buddioldeb oddieithr i ni ddefnyddio ein rheswm? Llefaru mae Paul megys wrth rai rhesymol, ac fe ddysgwylia fod dynion sydd wedi eu donio â rheswm yn barnu beth mae yn ei ddywedyd. Yr Ysgrythyr sydd wedi ei ysprydoli, medd efe, mae yn fuddiol "i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder; fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda." Mae Paul wedi gosod y *nodau* i lawr, a dysgwylia i ni ddefnyddio ein rheswm yn ein hymchwiliadau. Mae yn amlwg i mi nad oedd Paul ddim yn coleddu yr un syniad am ysprydoliaeth ag a goleddir yn eglwysi Cred y dyddiau hyn. Dysgwylia Paul i ni ddefnyddio yr Ysgrythyrau i'n helpu yn ein hymchwiliadau; fel llusern i'n goleuo, fel mynegfys i'n cyfeirio, gan ddefnyddio ein rheswm o hyd ar y daith.

S. N. S.

Mae y *Record*, un o'r papyrau Eglwysig Seisnig, wedi bod yn gwneuthur ymchwiliadau pwysig o berthynas i farn y gwahanol ymgeiswyr Seneddolar bwnc Dadgyssylltiad yr Eglwys, ac nid wyf yn tybied fod y wers mae wedi ddysgu yn un ag oedd am ddysgu o gwbl. Mae wedi cael allan fod amlafrif mawr yr ymgeiswyr Rhyddfrydol yn bleidiol i ddadgyssylltiad; er enghraifft, allan o 579 o ymgeiswyr, fod 403 dros ddadgyssylltiad, 37 yn unig yn erbyn, 33 yn gwrthod ateb, a 106 heb ddadgan eu barn. Nid yw yn gweled fawr dyogelwch i'w eglwys o gyfeiriad y Rhyddfrydwyr, ac yn naturiol iawn, fel y *Western Mail*, mae am i bawb i bleidleisio Toriaeth, y blaid sydd yn ddi eithriad am gadw yr eglwys fel y mae. Nid oes ond un o'r Rhyddfrydwyr Cymreig yn erbyn dadgyssylltiad, sef H. C. Allen, o Sir Benfro, ac y mae y *South Wales Daily News* yn methu deall ar ba sail y mae efe yn galw ei hun yn Rhyddfrydwr o gwbl. Wrth gwrs, bydd Syr Watcyn Wynne, a Viscount Emlyn, dros yr Eglwys fel un sefydledig; ond y farn gyffredin yw y bydd un *bicycle* yn ddigon i gario cynnrychiolaeth Doriaidd Cymru i'r Senedd y flwyddyn nesaf.

DYDDIADUR Y PARCH. T. DAVIES, CAERONEN.

(Parhad o tud. 209.)

1749

Mawrth 28, David Howel, Cârvoel, Ystrad.
Mehefin 26, Daniel David Danl, gof yn Llanbedr.
* Sarah Jenkin Davies, Llanbedr.
Gorph. 4, Margaret M. Jn. Willm Pant'rhwch, Llandewy.
16, David Evan John, Bwlch Dyhewyd.
Medi 24, Elizabeth Enoch Morgan ac hefyd Benjamin Harry David, y ddau o Gellan.
Hydref 3, Willm David Wm, Lancwm, Llanvayr.
Rhag. 5, Anne Davies, m. y Parch Owen Davies.
13, Rachel Alexandr Thos. yn Llanbedr.

$17\frac{49}{50}$

Ionawr 5, William John, Trebanau, Kellan, bu farw ei fam, Ionawr 4, $17\frac{49}{50}$
15, Sarah Dd Evan, Lletytwppa, Llanbedr.

ENGLYNION I GYBYDD.

Gan D. Davis, Castell Hywel.

[Mewn llythyr at y Parch. Josiah Rees, Gelligron, dyddiedig "Plas Bach, Chwefror 13eg, 1778."]

Diffeth ac oer beth yw'r byd—ei elwa
Dry'n alar a gofyd ;
Gwell i bawb golli bywyd,
Na byw i roi arno'u bryd.

Mewn po'n nid digon ei deganau—oll.
Er llaesu doluriau ;
Na llymion wyniau'r fron frau,
A gwael ing gwely angau.

Anhawdd ysgaru enaid—hen gybydd
Yn gwbwl a'i godaid ;
'N un ffwl hyd angeu ni phaid
A charu y llwch euraid.

Mae crafanc a gwanc y gwr—am gael
O guldir y gwanwr ; [darn
Rhodded—dystawed â'i 'stwr,
Trawsach na phawb yw'r treisiwr.

Ei Dduw efyw hen ddafad—wen gyrnig,
Neu garnol ysgrybliad ;
A'i ddwylaw rhy addoliad
O'r galon i'r Mammon mâd.

Ni thaw ei glec fyth glocian—am olud,
Aur melyn ac arian ;
Gyda brys mewn llys a llan
Am ei Dduw mae'n ymddyddan.

Rhaid cym'ryd ynfyd o'i anfodd—i'r llan
O'r llawnfyd a hoffodd ;
Dewr yw am gadw ei diro'dd,
Ni ddaw fe i'w gladdu o'i fodd.

Da ddaw o un llaw i'r llall—heb ei barch
Yr hen berchen annghall
A droi'r i fyw i dre'r *Fall*,
A'i god aur a gwyd arall.
—*Daf. o'r Goet.*

[Allan o ysgrifau D. D., Castellnedd.]

---

* Y dyddiad yn annarllenadwy.

"O LAN Y DW'R."

"Llawer o fwriadau sydd yn nghalon dyn, ond cynghor yr Arglwydd hwnw a saif;" a gras mawr ydyw cael nerth ar adfeilion adeilad ein "bwriadau" i ymddiried yn dawel yn y "cynghor" dwyfol. Clywsom am hen chwaer, yr hon a ddywedai fod yr Arglwydd wedi bod yn gorchymmyn iddi am flynyddau fyned i'w dŷ i'w wasanaethu a'i foli, a'i bod wedi ufuddhau iddo; ond yn ddiweddar, ei fod wedi dywedyd, "Dos i'r gongol, Mari, i besychu," a'i bod yn teimlo ei bod mor bwysig ufuddhau iddo yn y peth hwn ag yn y cyntaf. Ond peth rhyfedd iawn ydyw nad yw "myned i'r gongol a phesychu" byth yn dyfod i mewn i'n bwriadau ni. Yn ddiweddar, yr oeddym wedi bwriadu cryn lawer ein hunain, ac wedi annghofio "y gongol" a'r "pesychu." Myned i Aberystwyth, a phregethu nos Lun cyntaf yr Undeb; myned i Aberhonddu, i draddodi anerchiad i'r myfyrwyr; myned i'r Sketty, ar ymweliad â'n hanwyl gyfaill, y Parch. L. Davies; myned i Groesoswallt i'r Gymmanfa; myned i ymweled â'n hanwyl gyfaill, Mr. Davies, Adelaide, i Abertawe, a chael ychydig ddyddiau dedwydd yn ei gymdeithas ddifyr, &c. Dyna'r modd y bwriadem; ond ar eu traws oll, dyma "gynghor yr Arglwydd" yn dyfod, gan eu hysgubo ymaith fel llifeiriant o lyn cronedig yn cymmeryd rheilffordd o'i blaen, neu fel corwynt nerthol yn ysgubo gwëoedd y pryf gopyn o'i flaen, gan ein taflu "i'r gongol," fel pe dywedasai ein Tad trugarog, "Nage, fy mhlentyn, nid trwy lefaru yr wyt ti i'm gogoneddu yn awr, ond trwy ddyoddef; cei 'daro dy droed wrth y mynyddoedd tywyll,' a gwybod rhywbeth am 'ymchwydd yr Iorddonen,' ond rhoddaf gyfleusdra i ti fy nyrchafu yno." Yr ydym yn ymostwng i, ac yn ymddiried yn nghynghor yr Arglwydd, o herwydd nid oes genym hawl nac ewyllys i rwgnach. "Paham y grwgnach dyn byw, gŵr am gospedigaeth ei bechod?"

Yr ydym, bellach, wedi rhodio glan y dw'r am flynyddau, fel nad ydym yn ofni llawer croesi. Y mae mwy o gyssuron ar lan y dw'r nag y byddwn yn arfer meddwl. Teflir mantell anymwybyddiaeth dros y dyoddefydd, fel rheol, yn ol trefniant grasol Duw. Clywsom fod Dr. Aberthy yn gorchymmyn cuddio yr offerynau cyn *operatio* ar ryw druan. Gwna ein Tad Nefol yn debyg; dywed yn dirion, 'Gwnaf i'th gyfyngder bylu holl synwyrau dy corff." "Yn ddiau, yn llifeiriant dyfroedd lawer ni chant neshau ato ef." Clywsom am hen chwaer o'r wlad oedd yn ofni dyfod i Liverpool, o herwydd fod yn rhaid iddi groesi yr afon Mersey cyn myned yno. Dywedai yn fynych ei bod "yn ofni'r dw'r." Ar ol cyrhaedd Birkenhead, gofalodd y cyfeillion am ymddyddan â hi; a daeth i'r llong, ac eisteddodd ar fainc gyssurus. Yn mhen ychydig, gofynodd, "Pa bryd yr ydym yn myned i groesi'r dw'r?" "Yr ydym wedi croesi; dewch i'r lan," oedd yr ateb; a'r gwir oedd fod y chwaer wedi croesi heb wybod dim am y dwfr. Y mae yn anhawdd meddwl am farwolaeth mwy erchyll na marw trwy fygiant; ond etto, gwyddom ei fod yn fwy poenus i'r

edrychwyr na'r dyoddefydd. Rhoddir nawddau ymwybyddiaeth o amgylch y truan, ac ni chaiff y dyoddefaint mawr neshau ato ef.

Y mae llawer o flodau aroglber yn tyfu ar lan y dw'r. O! mor bersawrus ydyw cydymdeimlad; y mae ei ddylanwad fel awelon—

Aroglion Saron o'r glynau sawrus.

Deall fod ein brodyr anwyl yn Aberystwyth yn cofio am danom, ac yn dymuno yn dda i ni—Pwyllgor Aberhonddu yn gweddio am ein hadferiad—yr eglwysi Annibynol yn yr Hen Dabernacl a'r Newydd yn Nghaergybi yn tywallt eu calon gerbron Duw drosom—ein heglwys anwyl ein hunain yn Grove-street, Liverpool, yn gwneuthur ei goreu i gynnal ein breichiau—cyfeillion oddiyma a thraw yn anfon anerchion cariad—dyma rai o'r blodau sydd wedi eu planu ar lan y dw'r gan gydymdeimlad. Yr ydym wedi diolch am anian fud lawer gwaith, am heulwen haf yn taflu ei llewyrch fel gwenau Duw, nes bo'r meusydd yn chwerthin, a'r blodau yn ymhoewi yn eu pereidd-der, etto, mil agosach atom, a gwerthfawrocach genym, ydyw cydymdeimlad calon *un dyn* na holl anian gyda eu gilydd. Chwaer fedr ein darllen, brawd fedr ein codi, ac yr ydym o'n calon yn diolch am y rhai hyn. Dyn, wedi'r cwbl, sydd yn deall dyn.

Ond y mae yr Ysgrythyrau hefyd fel gardd flodau yn gwasgar ei pheraroglau. Fel sibrwd angel heddwch oedd y geiriau a ddaethant atom un diwrnod pan yn rhodio gerddi y *Salmau:* "Ti, yr hwn a wnaethost i mi weled aml a blin gystuddiau, a'm bywhei drachefn, ac a'm dygi drachefn o orddyfnder y ddaear." Yr un *un* sydd yn lladd ac yn bywhau; yr hwn sydd yn taraw i lawr ydyw yr hwn hefyd sydd yn cyfodi i fyny. Efe yw Duw y dyffrynoedd, a Duw y mynyddoedd. Pan y byddwn yn taraw ein traed wrth y mynyddoedd tywyll, bydd gyda ni, a buan y gesyd ein traed ar fynyddoedd uchelder Israel, gan eu gwneuthur mewn ysgafnder ysprydol, "fel traed ewigod." Gwir a ddywedodd un o bregethwyr anwylaf ein gwlad—fod llawer draenen bigog wedi agor clicied llawer adnod. Yr oedd alltudiaeth Ioan yn help i agor y nef. Pe gallem, gwaeddem o lan y dw'r nad oes dim yn deilwng o ddyn, nac yn talu cystal i ddyn, a byw i Dduw.

[Ymddangosodd yr uchod yn *Y Cenad Hedd* am Gorphenaf. Yr awdwr oedd y diweddar Barch. W. Nicholson, gweinidog Capel Cymreig Grove Street, Liverpool, yr hwn a fu farw Gorphenaf 25ain, yn 41 oed.—W.J.]

HANES DYN.

Beth ydyw hanes dyn? Geni—byw—marw:
Gadael y tawel draeth am y môr garw:
Ymdrech â gwyntoedd chwyrnion tymhestloedd:
Dianc yn ddyogel i hafan dawel—Hafan o hedd:
Angori'n ddyogel yn hafan dawel—Hafan y bedd.

Ionawr, 1868. C.

Amrion a Hanesion.

ENGLYN

A 'sgrifenwyd wrth weled pregethwyr Undodaidd yn gyru i lawr tua'r Bell (Aberdar) —un mewn cerbyd a'r llall ar geffyl.

Cyhoeddwch, gwiliwch y gwall, — am
O dd'rogan ga'r angall; [ddrygau
A gair Duw, goreu deall;
I'r fath gell nid a fyth gall.—1835.

—*B. Lewis.*

Y LLYGAD.

Y llygad a'i holl agwedd,—gwawl ydyw,
Gwyliedydd tra rhyfedd;
Ein Duw doeth, trwy wirddoeth wedd,
Hwylia fe hwn mewn haelwedd.

—*G. Harri, Garwdylai.*

EPITAPH

Found in an Ohio Cemetery, by William Carleton.

Earls and monarchs of the dead,
Who so long the worms have fed,
I'm coming to your chilly bed,
Edge close, and give me room.

ER COF AM WRAIG RINWEDDOL.

Un lwyr ddifrad, o lariaidd fron,
Un ddiargyhoedd ydoedd hon,
Un, er ei chlod, oedd hynod hael
I blant amddifaid gweiniaid, gwael.

Hi feddai fynwes gynhes, gu;
I'r Iesu mwyn hardd forwyn fu;
Meddiannol oedd ar grefydd bur;
Hon laesai 'i chwyn dan loes a chur.

Derbyniai barch tra bu'n y byd,
Hwn a barha yn bur o hyd;
Ond chwithdod mawr yn awr i ni,
A môr o wae, mai marw yw hi.

Ca'ed ei hiraethog, drylliog drâs
Feddiannu ffydd trwy grefydd gras;
'E gwyd eu cynhes gares gu
I Wynfa Nêr o'r dyfnder du.

—*Dewi Hefin.*

THE SUM OF IT ALL.

The boy that by *addition* grows,
And suffers no *subtraction*,
Who *multiplies* the thing he knows,
And carries every *fraction*,
Who well *divides* his precious time,
The due proportion giving,
To sure success aloft will climb,
Interest compound receiving.—*C. F.*

Last summer I stood here surveying
Flowers which are now by weeds destroyed,
Carnatious their bright tints displaying
The bounteous dews of heaven enjoyed;
But now, alas! they droop, dejected,
Their once strong roots to worms a prey,
They are by no kind hand protected,—
Forgotten, left to pine away.

—*Clodpate.*

(Neu Pegy Williams, merch Iolo Morganwg.)

TRYDAN.

(Englyn buddugol Eisteddfod Genedlaethol 1885.)

Aw trwydol yw y trydan,—chwai nodawr
A chenadydd buan;
Uthr ei dwrf a thêr ei dân;
Byd-weinydd—bywyd anian.

—*James Thomas, Merthyr.*

Mae deg o bethau nad yw dyn erioed wedi teimlo yn ofidus o'u plegyd:—Am wneuthur da i arall, am beidio dywedyd drwg am neb, am wrando cyn barnu, am feddwl cyn llefaru, am osod attaliad ar dafod digofus, am fod yn garedig i'r rhai ydynt mewn trallod, am ofyn maddeuant am bob drwg, am fod yn amyneddgar at bawb, am attal clustiau taenwr chwedlau, ac am annghredu adroddiadau drwg.

Nid oes dim yn y nefoedd, nac yn Nuw ei hunan, yn rhy dda i fod yn batrwn i'r enaid mwyaf iselfrydig.—*Phillips Brooks.*

Mae rhywun wedi dyfeisio cadair y gellir ei gosod mewn wyth cant o wahanol sefyllfaoedd. Bwriedir hi i fachgen bach pan fyddo yn y cwrdd.

Mae llawer o ysgrifenu wedi bod yn ddiweddar, mae yn debyg, mewn perthynas i darddiad yr ymadrodd Seisnig, "Masterly inactivity." Ysgrifena gohebydd ei fod yn cael rhywbeth tebyg iawn ddo yn Isaiah xxx. 7:—"Canys yn ddiles ac yn ofer y cynnorthwya yr Aifftiaid: am hyny y llefais arni, Eu nerth hwynt yw aros yn llonydd."

Ceir y beddargraff a ganlyn mewn mynwent yn Rothsay:—"Erected by Jane B———, to the memory of her husband, John B———. 'Him that cometh unto me, I will in no wise cast out.'" Gwahoddiad caredig iawn, onite?

Offeiriad yn Virginia, wrth draddodi ei bregeth ffarwel i'r gynnulleidfa, a ddywedodd, "Nid yw yn ddrwg genyf am yr ymraniad sydd i gymmeryd lle rhyngom, anwyl frodyr, ac y mae genyf dri o resymau da am hyny—y cyntaf yw, nad ydych chwi yn fy ngharu I; yr ail, nad ydych chwi ddim yn caru eich gilydd; ac yn drydydd, nad yw Duw ddim yn eich caru chwi. Nid ydych yn fy ngharu i—mae amryw fisoedd o fy nghyflog heb eu talu; nid ydych yn caru eich gilydd, neu ni fuasai y fath brinder o briodasau yn eich plith; ac nid yw yn ymddangos fod Duw yn eich caru fel y dylech gael eich caru, gan fod can lleied o angladdau wedi bod yn eich plith yn ddiweddar."

Pechod.--Cyhoeddodd un Dr. Lewis, duwinydd Cymreig, bamphledyn chwe' cheiniog unwaith ar y pwnc, "Sut y daeth pechod i'r byd." Awgrymodd cyfaill iddo wneuthur y pamphlet yn swllt a dywedyd wrth ddynion sut i gael pechod allan o'r byd, gan ychwanegu y byddai wed'yn yn llawn gwerth y chwe' cheiniog arall.— *Modern Thought*, cyhoediad newydd a ddygir allan yn Melbourne, Awstralia,

Mae rhagfarnau yn debyg i lygod Ffrengig, a meddwl dyn yn debyg i drap; deuant yn rhwydd i mewn, ac yna feallai na allant ddyfod allan byth.

Dysgwn oddiwrth y *Daily News* fod mesurau wedi cael eu cymmeryd i gael allan y gyfraith gyda golwg ar allu offeiriadon Eglwys Sefydledig ein gwlad i dderbyn gwahoddiadau i bregethu mewn pwlpudau Annghyddfurfiol. Y mae rhai Eglwyswyr llydan wedi cymmeryd neu sicrhau barn unedig Mr. Arthur Charles, Q.C., a Mr. Courtney Kenny, nad oes dim annghyfreithlon mewn bod offeiriad yn pregethu mewn capelau Annghyddfurfiol, os byddant yn yr un plwyf ac y mae perchenog bywioliaeth Eglwysig ei hunan yn byw. [Beth am Annghyddfurfiwr yn pregethu yn yr Eglwysi?]

Aur California.—Deugain mlynedd yn ol y darganfyddodd un Marshall y *nugget* cyntaf o aur yn nhalaeth California, yr hyn a fu'n achos o ddyrchafiad annhraethol i'r dalaeth, ac yn foddiou cyfoethogi cannoedd o bobl. Mae yn drist darllen am yr un Marshall hwn yn awr wedi marw mewn diffyg o angenrheidiau bywyd. Y dalaeth, felly, wedi gadael i'w chymmwynaswr penaf farw mewn angen a dinodedd.

Marwgofion.

Gorphenaf 30ain, yn 82 mlwydd oed, Margaret Jones, Blaentycoch, Dihewid. Nid oedd chwe' mis llawn er pan gollodd ei phriod, ac nid oedd ei hiechyd yn dda y pryd hwnw—yr oedd wedi cael ei dal gan y dyddiau blin. Bu am flynyddau lawer yn aelod yn Ciliau, lle yr oedd yn myned i addoli pan oedd yn alluog i fyned yno. Ar ddydd ei hangladd, gweinyddwyd gan W. Rees, Rhydygwin, a chladdwyd hi yn ymyl ei phriod, yn mynwent Dihewid. Bydded i'r ferch sydd wedi ei gadael yn unig gael nerth i gredu fod ffyrdd yr Hwn a roddodd ac a gymmerodd yn ddoeth a da.

Awst 6fed, yn 26ain mlwydd oed, John, unig fab David ac Anne Thomas, Cefncoedcymmer, ar ol cystudd maith a phoenus am dros saith mis o amser. Mab tangnefedd a phlentyn diniweidrwydd oedd John. Ni chlywodd yr ysgrifenydd air traws yn dyfod o'i enau erioed, ac ni welodd ŵg erioed ar ei wyneb. Ceir colled fawr ar ei ol yn yr

Hen-dy-Cwrdd, lle yr oedd yn aelod ffyddlon. Gan nad pwy fuasai'n absenol o'r cwrdd, yr oedd John bob amser yn ei le wrth yr *harmonium*, yn yr Ysgol Sul a'r ysgol gân yn dysgu'r plant, gyda'r rhai yr oedd yn bur lwyddiannus. Claddwyd ef y Mercher canlynol yn y fynwent ar bwys y tŷ, a gwasanaethwyd yn yr angladd gan weinidog yr H.D.C.

Awst 19eg, yn 82 mlwydd, James Lewis, dilledydd, Ffynnon Oer, Ystrad. Treuliodd yr hen frawd serchog, diniwed, a pharchus hwn ei oes hir yn y lle y ganwyd ef, wedi bod yn briod am yn agos iawn i dri ugain mlynedd. Gadawodd ei briod anwyl oedranus ar ol, mab a merch ac wyrion mewn hiraeth a galar, heblaw perthynasau a chylch eang o gyfeillion. Treuliodd ei oes hir mewn heddwch â phawb. Ni fedrai yr ymrysongar ei dynu ef i gymmeryd rhan mewn ymrafael rhwng dynion â'u gilydd. Perchid ef gan bawb a'i hadwaenai. Yr oedd yn ddyn y gellid ymddiried yn ei air, ac yn meddu ar lawer o rinweddau a wnelai y byd yn well pe bai pawb yn eu meddu. Ar ddydd ei angladd, gweinyddwyd yn y tŷ gan W. Rees, Rhydygwin, a J. Davies, Alltyplaca, a chladdwyd ef yn yr Ystrad. Bydded i'w blant a'i wyrion ymdrechu dylyn ei rinweddau. Heddwch i'w lwch.

Awst y 23ain, yn 4 mis oed, Daniel, anwyl faban Thomas ac Anne Davies, Melin Cwrtnewydd. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn mynwent Capel-y-bryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan J.D.

Medi 2il, o'r darfodedigaeth, David Davies, Royal Oak, Cellan, yn 36 mlwydd oed. Bu yn dihoeni am lawer o fisoedd cyn i'r daearol dŷ gael ei ddattod, a'r elfen fywydol ymadael. Ar ddydd ei angladd y Sadwrn canlynol, daeth lluaws o gyfeillion a pherthynasau i hebrwng yr hyn oedd farwol o hono i'r bedd yn mynwent Caeronen. Gadawodd wraig a dau o blant a mam, heblaw perthynasau ereill i alaru ar ei ol. Bydded iddynt oll gael modd i ymdawelu. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog Caeronen.

Medi 8, Daniel Price, Tramroad Side, Hirwaun, yn 46 oed, gan adael gweddw a dau fab i alaru eu colled. Priod ffyddlon a gofalus a thad tyner a doeth oedd Daniel, a chymmydog yn cadw lle da yn meddyliau ei gymmydogion. Dyn da oedd, dyn gonest a chrefyddol. Er nad oedd yn aelod cyflawn, yr oedd yr achos yn yr H.D.C., Aberdar, yn anwyl ganddo; ac un o'r pethau a'i blinai fwyaf yn ei amser olaf oedd na fuasai wedi ymaelodi flynyddoedd yn ol. Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig. Bydded coffadwriaeth am ddyn da yn help i'r weddw a'r plant dros dymhor eu daearol ymdaith i ymgadw yn lan oddiwrth holl ddrygau'r byd, fel y gallont ar y diwedd lawenychu yn y gobaith am fynediad llawen i fyd mawr y cydgyfarfod.

Medi 8fed, o'r darfodedigaeth, Hannah Davies, Efailfach, Pencarreg, ger Llanbedr, yn 16 oed. Hon oedd unig ferch ac unig blentyn ei thad a'i mam. Claddwyd ei thad pan nad oedd hi etto ond ieuanc iawn. Boreu tywyll i'r fam oedd y boreu hwnw. Er nad oedd gan ddi ond un plentyn yn edrych i fyny ati am ei gynnaliaeth, etto, yr oedd y ffaith fod yna un, heblaw meddwl am y serchiadau tyner oedd yn cael eu haredig wrth roddi y ffarwel olaf ar y ddaear i un ag oedd mor anwyl ganddi yn gwneyd y boreu hwnw yn foreu cymmylog a thywyll. Yr oeddent yn amgylchiadau ag sydd wedi argraffu y boreu yn annileadwy ar ei meddwl ac ar ei chalon. Ond etto bu rhagluniaeth fawr y nef yn fwy tirion o honi efallai nag oedd hi ar y pryd yn gallu gobeithio. Trwy ddiwydrwydd a llafur caled o du'r fam, magwyd i fyny yn dyner a gofalus y ferch fechan, yr hon oedd bob amser yn ddelicate ei hiechyd, nes dyfod o honi yn ferch fawr. Ond yn dra disymmwth cafodd ei chymmeryd yn glaf, ac yn mhen ychydig wythnosau cafodd ei chymmeryd oddiwrth ei hanwyl fam a'i lluosog gyfeillion adref i'r wlad well. Y mae llawer o bethau yn ffyrdd Duw ag sydd yn dywyll ac anesponiadwy i'r meddwl meidrol, ond i'r meddwl Anfeidrol y mae pob peth yn ddiau yn oleu ac yn berffaith gysson, ac nid oes genym ninnau ond ceisio dystewi. Bydded i'r fam dyner gael nerth i ymdawelu a pheidio galaru yn anobeithiol. Bydded iddi gael edrych yn y blaen ar y boreu y ca hi etto ei gweled. Bydded i ddynion ieuainc yr ardal geisio efelychu ei rhinweddau. Ar ddydd ei hangladd daeth torf anarferol fawr i hebrwng yr hyn oedd farwol o honi i'r bedd yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y ty gan offeiriad y plwyf, ac yn y capel traddodwyd pregeth gan y weinidog y lle.

Jenkin Howell, Argraffydd, Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau:—Rev. G.E.; M.T., Llangors; L.Ll., Cardiff; Miss J. Cellan; E.J., Ceginan; D.T., Treorkey; E.J., Carmarthen.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders.* Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Meirion Cottage,
ABERDARE.

Mae "Trefniadau y Flwyddyn" wedi myned dipyn yn annhrefnus arnom yn ddiweddar. Gobeithiwn allu casglu ysgub gyflawn yr ol-ddyledion cyn diwedd y flwyddyn. Felly, hai ati, gyfeillion, o ddifrif. Carem osod trefniadau y flwyddyn nesaf i fewn yn fuan, a thuag at ei wneuthur y goreu y gellir, anfoned cyfeillion eu hawgrymiadau. Mae peth achwyn ar ein rhifyn diweddaf, er fod rhai yn canmol. Yr oedd y goreu y gallem dan yr amgylchiad.

TRECYNON SEMINARY, ABERDARE.

R. JENKIN JONES, M.A., HEAD-MASTER.

☞ *Vacancies for two Boarders. Terms on Application.* ☜

Y CWRDD CHWARTEROL.

Cynnelir ein nesaf yn y Cwmbach, Mercher a Iau, y 30ain o Fedi, a'r 1af o Hydref. Y cyfarfod i ddechreu nos Fercher am 7 o'r gloch. Boreu dydd Iau, am 11 o'r gloch, y pregethwr fydd y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid. Darllenir papyr ar "Genadwri arbenig Undodiaeth," gan y Parch. William James, B.A., Llandyssul.

Er nad ydym ni wedi bod yn alluog, oblegyd afiechyd trwm a maith, i fynychu ein Cyfarfodydd Blynyddol a Chwarterol am lawer o amser, bellach, etto, gobeithiwn a thaer erfyniwn ar yr holl weinidogion, yn gystal ag ereill y bydd yn gyfleus iddynt, i bresenoli eu hunain yn y Cwrdd hwn.

E. W. LLOYD, Gweinidog.

LLYFR CYNTAF I BLANT YR YSGOL SUL

(ail argraffiad),

Gan y diweddar Barch. JOHN JONES, ABERDAR.

Pris—Dwy Geiniog.

Gwerthir 100 o'r uchod yn ol 12 swllt y cant; a dwsin am 1s. 6c.